**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD**
**21 MAWRTH 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 21 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Ted Palmer, Ralph Small, Haydn Bateman, Billy Mullin
**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Cynghorydd Huw Llewelyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelod y Cynllun)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Andrew Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwr Cynllun Arall), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Colin Everett (Prif Weithredwr) – o eitem 109, Philip Latham (Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi Cronfa – Grŵp JLT Group), Paul Middleman (Actwari Cronfa – Mercer).

Swyddogion/ Ymgynghorwyr yn cynnwys: Debbie Fielder (Rheolwr Cyllid Pensiynau), Helen Burnham (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau) a Megan Fellowes (Prentis – Mercer – cymryd cofnodion).

**106. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS GWRTHDARO O RAN CYSYLLTIAD)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad newydd.

**107. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2018. Roedd y Cynghorydd Bateman a'r Cadeirydd eisiau pwysleisio safon ardderchog y cofnodion blaenorol a llongyfarch Miss Fellowes ar ei gwaith.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cofnodion yn cael eu derbyn, eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**108. PLSA CONFERENCE SESSION VIDEO ON COST TRANSPARENCY**

Cyflwynodd y Cadeirydd fideo sesiwn gynhadledd y PLSA ar dryloywder cost a sut i sicrhau gwerth am arian gyda ffioedd rheoli buddsoddiad. Gellir gweld y fideo yma: https://www.youtube.com/watch?v=0SDtFo5AOhs. Roedd y fideo am dryloywder ffioedd buddsoddi, gyda pherchnogion asedau a rheoleiddwyr o blaid datgelu ffioedd rheolwr ar draws ddosbarthiadau o asedau. Felly, rhaid i fuddsoddwyr barhau i geisio cyngor buddsoddi ac wrth i argymhellion newydd

ddod i'r amlwg gan y Gweithgor Datgeliad Diwydiant, roedd y fideo'n egluro'r camau nesaf ar gyfer buddsoddwyr, ymgynghorwyr a darparwyr gwasanaeth.

Esboniodd y Cadeirydd, o ran Cronfa Bensiynau Clwyd, eu bod bob amser wedi gofyn i reolwyr y gronfa ddarparu costau buddsoddi llawn ar gyfer ei adroddiad blynyddol ac felly roedd y sesiwn yn dangos i'r Pwyllgor sut y dylid gwneud hyn y fwy cyson yn y dyfodol ar draws y gymuned fuddsoddi yn enwedig gan nad yw rhai cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cyhoeddi'r data.

Cynghorodd y Pwyllgor hefyd, fel cynrychiolydd y Gronfa ar Bwyllgor Cyd-lywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, y byddai'n sicrhau bod disgwyl i'r Gweithredwr (LINK), a ddaeth i gwrdd â'r Bwrdd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf, sicrhau bod rheolwyr yn cydymffurfio â'r Cod Tryloywder Cost lle bo hynny'n bosibl.

Wedi i'r fideo orffen soniodd Mr Latham fod y pwnc hwn yn agos iawn at galon y Gronfa gan fod llawer o waith wedi bod yn gysylltiedig â darparu tryloywder costau gan gynnwys casglu ymchwil a safbwyntiau i fewnbynnu i'r gofynion. Mae'r gwaith wedi cynnwys sefydlu templed ar gyfer y Cronfeydd.

**109. <u>CYNLLUN BUSNES 2018/19 HYD AT 2020/21</u>**

Cyflwynodd y Cadeirydd y brif eitem ar y rhaglen i'r Pwyllgor a throsglwyddodd y cyfarfod i Mr Latham. Gofynnodd Mr Latham i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer y 3 blynedd nesaf a chyfeiriodd yr unigolion at dudalen 24 y papurau a oedd yn nodi pwyntiau bwled yn pwysleisio prif bwrpasau'r Cynllun Busnes.

Gweler isod y pwyntiau allweddol mewn perthynas â'r Cynllun Busnes;

- Roedd tudalennau 19-21 yn dangos y cynnydd yn erbyn cynllun busnes 2017/18. Roedd y mwyafrif ar y trywydd cywir neu wedi'u cwblhau.
- Roedd tudalen 25 yn dangos y strwythur diweddaraf ar gyfer y gronfa gyda'r WPP newydd.
- Roedd llawer o dasgau 'busnes arferol' ar y Cynllun Busnes a oedd yn dangos y gwaith a oedd angen ei wneud i redeg y Gronfa; roedd tudalen 30 ymlaen yn amlinellu'r 9 maes gwaith gwahanol a nodwyd bod tasgau'r Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr yn ychwanegiad newydd.
- Ar waelod tudalen 32, roedd yr holl lwyddiannau a gyflawnwyd dros y 3 blynedd diwethaf wedi'u hamlygu a oedd yn cynnwys gwelliannau ar lywodraethu, rheoli risg a'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y WPP.
- Roedd y prif faterion a fyddai'n cael eu hwynebu dros y 3 blynedd nesaf wedi'u nodi ar dudalen 33 pan fydd y gronfa yn dominyddu'r Cynllun Busnes ond gallai hefyd fod goblygiadau o ganlyniad i'r broses rheoli cost (yn debygol o 2020).
- Roedd tudalen 35 yn dangos y gyllideb ar gyfer 2018/19 a chyllideb 2017/18 yn erbyn yr amcangyfrif.
- O ran llywodraethu'r Gronfa (tudalen 41) roedd tasgau allweddol yn cynnwys rhoi gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd ar waith a chydnabod yr angen am fwy o hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor yn dilyn y dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn ddiweddar.

Parhaodd Mr Latham drwy ddweud bod yr adran ar Risgiau Cyllid a Buddsoddi (tudalen 47) yn dangos y bydd risgiau bob amser yn uchel gan nad

yw'r Gronfa wedi'i hariannu yn llwyr nac ychwaith yn gallu canfod yr holl risgiau. Y Llwybr Hedfan yw'r "cynllun" sy'n cael ei roi ar waith er mwyn i'r Gronfa allu symud tuag at ariannu llawn a lleihau'r risg o ddirywiad. Bydd adolygiad actiwaraidd interim yn cael ei gynnal yn 2018 i helpu â chyllidebu ar gyfer cyflogwyr ac ochr yn ochr â hynny bydd fframwaith rheoli risg y cyflogwr yn cael ei gwblhau.

Mae risgiau eraill yn ystyried y weinyddiaeth a chyfathrebu aelodau. Mae gweinyddu yn cynnwys hyfforddiant ac allanoli gwaith y sawl sy'n cael eu hyfforddi i bartïon allanol er mwyn clirio'r ôl-groniadau ac ati. Bellach mae cyfathrebu ag Aelodau yn digwydd fwyfwy trwy Hunanwasanaeth Aelodau.

Mae'r tasgau nesaf ar gyfer y tîm gweinyddol (gan gynnwys cyfathrebu) i'w gweld ar dudalen 52, mae'r rhan fwyaf o eitemau eisoes yn gyfarwydd fel gwaith parhaus; fodd bynnag byddai'r tasgau yn cymryd peth amser i'w gweithredu. Dyma restr o'r tasgau;

1. Gwella ansawdd data Aelodau sy'n hanfodol ar gyfer y Gronfa drwy fentrau amrywiol e.e. cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig (sydd wedi'i allanoli i Equiniti a'r prosiect cydgasgliad (peth cymorth gan Mercer)
2. Y cynllun gwella data (a fyddai'n cael ei gwblhau yn dilyn canllaw'r Rheoleiddiwr Pensiynau).
3. Gweithredu iConnect ar gyfer y Gronfa i ystod eang o gyflogwyr

Yna, trafododd Mrs Fielder y cyllid i gyflawni'r Cynllun Busnes. Roedd tudalen 34 yn dangos y llif arian dros dair blynedd o 2018 9 2021 ar sail flynyddol a'r rhagolwg ar gyfer 2017/18. Y bwriad oedd y byddai hyn yn cynorthwyo â rheoli trysorlys.

Ychwanegodd bod y ffigyrau sydd wedi'u hamcangyfrif ar gyfer Cyfandaliadau, Trosglwyddiadau i Mewn a Throsglwyddiadau Allan wedi'u cyfrifo yn seiliedig ar ffigyrau hanesyddol. Mae'r buddion a'r cyfraniadau pensiwn a ragwelir dros y tair blynedd nesaf yn haws i'w mesur oherwydd y Prisiad Actiwaraidd a'r cyfraniadau ardystiedig. Cadarnhaodd Mrs Fielder y byddai'r gronfa yn cael mwy o eglurder ar ôl yr adolygiad ariannu ar gyfer yr amcangyfrifiadau o ran y ffigyrau dros 2018- 2021.

Gweler y manylion allweddol a eglurodd Mrs Fielder mewn perthynas ag amcanestyniad llif arian ar gyfer 2018/19 a'r gyllideb ar gyfer 2018/19 isod;

- Mae'r ansicrwydd ynghylch buddsoddiadau mewnol ar randaliadau ar gyfer marchnadoedd preifat.
- Rhandaliadau yn llawer uwch na'r incwm yr oedd y Gronfa wedi'i dderbyn oherwydd amodau'r farchnad.
- Ar hyn o bryd, mae disgwyl i'r Gronfa fod â llif arian cadarnhaol (o oddeutu £10m) yn 2018/19 ond gallai hyn newid yn dibynnu ar sawl ffactor. Bydd mwy o ystyriaeth yn cael ei rhoi yn dilyn adolygiad interim 2018.
- Y prif newid o ran y gyllideb yw ffioedd rheolwr y gronfa, roedd y gyllideb yn 2017/18 oddeutu £11.9 miliwn ac mae'r amcangyfrif o'r dirdrafodion oddeutu £15.2 miliwn. Y prif reswm am y gwahaniaeth oedd bod gwerth y Gronfa wedi cynyddu'n fwy na'r disgwyl.

- Mae cynnydd wedi bod o ran ffioedd, yn bennaf oherwydd y gwaith ychwanegol y mae'r gronfa wedi'i gwblhau e.e. gwarchod ecwiti a chynorthwyo'r Gronfa â marchnadoedd preifat.
- Mae cronfeydd wrth gefn ar gyfer y prosiect Cymudiad Pitw a fydd efallai yn cael eu hallanoli, yn ogystal â'r cyfanrediad.
- Mae'r gyllideb gyfunol yn cynnwys cost unrhyw gyngor allanol ar gyfer y gronfa wrth symud ymlaen, ond nid yw gwaith mewnol, hynny yw cyfarfodydd, yn cynnwys costau cyflog ar wahân.

Cwestiynodd y Cyngorydd Bateman y ffioedd buddsoddi a pham bod ffioedd rheolwr y gronfa wedi cynyddu. Eglurodd Mrs Fielder bod cynnydd mwy na'r disgwyl i werth y Gronfa. Roedd y gyllideb yn y dyfodol yn dadansoddi treuliau dosbarthiadau o asedau yn seiliedig ar yr hyn dalodd y Gronfa am yr asedau sylfaenol. Caniataodd hyn ar gyfer y treuliau pwynt sylfaen cyffredinol. Os yw gwerth y Gronfa'n cynyddu'n fwy na'r disgwyl, byddai'n uwch na hynny ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i amcangyfrif yn gywir oni bai bod y marchnadoedd yn sefydlig iawn.

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman i Mrs Fielder egluro'r paragraff olaf ar dudalen 35 o ran y Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr. Eglurodd Mrs Fielder bod cyfraddau cyfraniad y cyflogwr yn y Prisiad Actiwaraidd lle gaiff y costau gweinyddu ar gyfer y gwasanaethau Tîm Cyfathrebu â Chyflogwyr i'w talu trwy swm ychwnaegol a fyddai'n cael ei gynnwys yn y gyfradd gyfraniad ar gyfer y prisiad nesaf.

Cwestiynodd y Cynghorydd Bateman yr hyn a oedd ar dudalen 26 o ran beth oedd y gwahaniaeth rhwng costau y 7 rheolwr cronfa craidd allanol a'r 45 rheolwr allanol nad ydynt yn rhai craidd. Dywedodd Mrs Fielder bod y costau wedi'u rhannu ar gyfer pob rheolwr. Mae'r rheolwyr craidd yn fuddsoddiadau megis ecwitiau rhestredig, incwm sefydlog a mae'r rheolwyr nad ydynt yn rhai craidd yn fuddsoddiadau megis cyllid marchnad breifat. Mae'r rheolwyr buddsoddiadau a ddefnyddir i'w gweld yn yr adroddiad JLT i'r Pwyllgor.

Gofynnodd Mr Hibbert a oedd angen i'r Gronfa neilltuo arian o fewn cyllideb 2018/19 ar gyfer datblygiadau pellach o ran Hunanwasanaeth Aelodau. Dywedodd Mrs Burnham mai'r costau hanesyddol ar gyfer Hunanwasanaeth Aelodau oedd y costau gweithredu ychwanegol ar gyfer y meddalwedd newydd ac felly nid oedd y costau yn ailgodi bob blwyddyn.

O ran sylwadau risg, gofynnodd Mr Hibbert a oedd y Gronfa yn fodlon yn y meysydd a oedd â mwy nag un lliw rhwng y lliw yr ydym a'r lliw rydym eisiau bod e.e. ambr a melyn. Gweler enghraifft ar dudalen 38 yn disgrifio nifer y staff annigonol gyda statws risg coch ar hyn o bryd a tharged o statws gwyrdd. Ar dudalen 39 statws risg staff presennol y cyflogwr yw coch, sydd hefyd yn symud i darged gwyrdd. Felly holodd Mr Hibbert a oedd y Gronfa yn fodlon â'r lefel o fanylder yn y Camau Gweithredu Pellach ar y tudalenau hyn, lle fydd angen i'r statws risg gyflawni naid sylweddol i symud o goch i wyrdd.

Cytunodd Mr Everett gan holi a ddylai cyflogwyr fod â statws melyn yn hytrach na choch yn y risgiau allweddol.

Nododd Mr Latham y dylid hefyd ystyried yr amser disgwyliedig a ddangosir yn y cyd-destun hwn a dywedodd bod y sgoriau risg presennol yn fater

o farn mewn rhai achosion. Croesawodd unrhyw sylw gan y Pwyllgor a dywedodd y byddai'n myfyrio drostynt ar gyfer rhan o gam nesaf y Gofrestr Risg.

Dywedodd Mrs Burnham mai dim ond yn ddiweddar oedd Cyngor Sir y Fflint wedi rhoi iConnect ar waith, felly dyna pam oedd lliw risg y Cyflogwr yn uwch na'r hyn sy'n cael ei ystyried yn briodol. Cytunodd Mr Latham gyda Mrs Burnham ei bod hi'n ddyddiau cynnar ac awgrymodd y dylid rhoi hyn ar raglen bob Panel Ymgynghorol Pensiynau i ddiweddaru unrhyw newid.

Dywedodd Mr Hibbard bod Aelod a oedd yn gymhorthydd addysgu ac â phedair swydd wahanol yn derbyn pedwar pensiwn gwahanol; felly gofynnodd Mr Hibbert a fyddai'r prosiect cyfanrediad yn ymdrin â materion o'r fath. Ymatebodd Mrs Burnham gan gadarnahu y byddai'r proiect yn ymdrin â materion o'r fath.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion ar eu llwyddiant wrth gyflawni'r tasgau yn y cynllun busnes blaenorol. Yn benodol ym mharagraff 1.03 yr adroddiad eglurhaol a oedd yn cyfeirio at y Radd Haen Gyntaf y Cod Stiwardiaeth, sef anrhydedd nad oedd llawer o gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn meddu arni. Diolchodd y Cadeirydd hefyd i'r tîm gweinyddu am y gwaith ychwanegol a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn, hynny yw cyflwyno iConnect o flaen yr amserlen fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.04.

**PENDERFYNWYD:**

1. Bod Aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed tuag at Cynllun Busnes y Gronfa yn ystod 2017/18

2. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes yn Atodiad 2 yn ymwneud â'r cyfnod 2018/19 hyd at 2020/21

## 110. CYFUNO BUDDSODDIADAU YNG NGHYMRU

Cyfeiriodd Mr Latham y Pwyllgor at dudalen 65, sef adran o'r rhaglen a oedd yn cynnwys adroddiad at bwrpasau gwybodaeth.

Roedd y pwyntiau allweddol a wnaed gan Mr Lathan fel a ganlyn;

- Gwnaed cynnydd cadarnhaol iawn o ran sefydlu'r is-gronfeydd gyda'r ffocws ar hyn o bryd ar y Cronfeydd Ecwiti Byd-eang. Gwnaed llawer o waith gan swyddogion i sicrhau bod hyn yn bodloni amcanion y Gronfa. Dylid cytuno ar yr is-gronfeydd yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyd-lywodraethu.
- Trafodwyd cyllideb y WPP a nodwyd ei bod yn cynnwys holl gostau'r Awdurdod Cynnal.
- Mae'r wybodaeth a'r rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyd-lywodraethu ar wefan Sir Gaerfyrddin.
- Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at Gadeirydd/ Is-Gadeirydd y WPP yn croesawu penodiad gweithredwr ond yn nodi'r gwaith sydd angen ei wneud. Mae hyn yn dangos y lefel o graffu parhaus.

Dywedodd Mrs McWilliam fod cyllideb y WPP yn cynnwys meysydd megis staffio, gwasanaethau cyfreithiol a ffioedd gwasanaethau gweithredwr ar gyfer Link and Russell.

Cadarnhaodd Mrs Fielder ei bod wedi cynyddu'r ffioedd yn ymwneud â chyfuno o'u cymharu â'r rheiny wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb, gan ei bod yn credu y bydd angen gwneud mwy o waith i weithredu'r is-gronfeydd na'r disgwyl. Fodd bynnag, anodd iawn yw rhagweld lefel y costau ar hyn o bryd.

Dywedodd Mr Hibbert bod pryderon am y cronfeydd yn gyffredinol o ran y gweithlu dwy haen oherwydd amodau / tâl gwahanol a materion Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth a gofynnodd a oedd unrhyw broblem y Sir Gaerfyrddin.

Atebodd Mrs McWilliam gan ddweud bod y pryderon yn dueddol o fod yn ymwneud â staff yn cael eu trosglwyddo o awdurdodau lleol i'r gronfa ond nid yw hyn yn wir yn achos y WPP gan ei fod yn weithredwr allanol.

Gofynnodd Mr Everett a oeddent i gyd yn weithwyr o Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd Mrs McWilliam fod y gweithwyr a oedd yn gweithredu'r gronfa yn weithwyr i Link and Russell ond y byddai'r staff a'r gweithwyr a fyddai'n ymwneud â'r gwaith Awdurdod Cynnal yn weithwyr o Sir Gaerfyrddin.

Roedd Mr Everett eisiau cadarnhad o ran sut oedd costau rhedeg yn cael eu rhannu. Cadarnhawyd eu bod yn cael eu rhannu'n gyfartal, hynny yw 1/8 i bob Cronfa.

Ychwanegodd Mrs Fielder bod unrhyw gost yn ymwneud â Link and Russell mewn perthynas â maint yr asedau sy'n cael eu cyfuno. Amcangyfrifwyd a chynhwyswyd y rhain fel ffigyrau cyllideb ar wahân yn y cynllun busnes er y nodwyd ar gyfer 2018/19 y byddai'r rhain ond yn gostau rhan o'r flwyddyn gan nad yw'r asedau wedi'u trosglwyddo eto.

Gofynnodd Mr Latham a fyddai unrhyw aelod a'r Pwyllgor yn bresennol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cyd-lywodraethu. Cadarnhaodd Mr Hibbert y byddai'n ceisio mynychu.

Dywedodd Mr Latham bod trafodaethau parhaus ynglŷn â'r ffaith na fyddai gan y Pwyllgor na'r Bwrdd yr hawl i aros ar gyfer rai rhannau o gyfarfod y Pwyllgor Cyd-lywodraethu oherwydd rhesymau cyfrinachedd ar y cam hwn e.e. oherwydd trafodaeth barhaus am ffioedd rheolwr. Dywedwyd nad oedd hon yn sefyllfa ddelfrydol a'r gobaith oedd y byddai aelodau'r Pwyllgor yn cael mynychu'r cyfarfod yn y dyfodol gan y byddai aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Pwyllgor Cyd-lywodraethu yn gorfod dilyn yr un lefel o gyfrinachedd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn trafod y cynnydd sy'n cael ei wneud gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

## 111. DIWEDDARIAD CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Trosglwyddodd y Cadeirydd yr eitem hon ar y rhaglen i Mr Middleman i amlygu'r pwyntiau allweddol o ran materion presennol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Dywedodd Mr Middleman fod y sylwadau o ran yr arafiad mewn gwelliannau disgwyliad oes yn seiliedig ar ddadansoddiad 2017 gan y

Sefydliad Rheolaeth Siartredig sydd wedi parhau i 2018 yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf. Wrth gwrs nid yw hyn yn beth da ar gyfer unigolion ond mae'n gadarnhaol iawn ar gyfer cyllidebau'r Gronfa.

Ychwanegodd Mr Middleman efallai y bydd lleihad o ran cyfrifoldebau o 1-2% a allai arwain at ostyngiad o oddeutu £40 miliwn oddi ar y diffyg ariannol.

Gwnaeth sylw hefyd ar hysbysiad adran 114 Cyngor Swydd Northampton. Roedd hyn mewn perthynas â'r rheoliadau gwario yng Nghyngor Swydd Northampton yn adlewyrchu straen ariannol difrifol ar y Cyngor Sir. Dyma'r tro cyntaf i Mr Middleman weld hyn ers iddo fod yn Actiwari, ond roedd o'r farn ei fod yn atgyfnerthu'r angen am fframwaith rheoli cyflogwr cadarn. Mae'r sefyllfa hon yn amlygu'r angen i fod yn ymwybodol o'r ffaith fod hyn yn digwydd hyd yn oed i'r cyflogwyr cryfaf.

Holodd y Cynghorydd Bateman a oedd yr adolygiad o gofrestru awtomatig yn dal i ddigwydd. Ymatebodd Mr Middleman gan ddweud ei fod eisoes wedi ei gwblhau ac y byddai yn weithredol o ganol 2020. Yr effaith yn yr hirdymor yw y gallai cofrestru awtomatig gynnwys poblogaeth fwy. Fodd bynnag, ni fyddai disgwyl i hyn fod yn arwyddocaol i'r Gronfa.

**PENDERFYNWYD:**

1. Argymhellir bod holl aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r adroddiad hwn ac yn ymgyfarwyddo â'r materion presennol sy'n effeithio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gan fod rhai yn arwyddocaol i weithrediad y Gronfa.

**112. <u>DIWEDDARIAD GWEINYDDU PENSIWN/ CYFATHREBU</u>**

Dywedodd Mrs Burnham nad oedd unrhyw beth penodol i'w amlygu yn yr adroddiad hwn ond bod y llwythi achosion dan atodiad 1 (tasgau arferol) ar gyfer lefelau achos Aelodau ar dudalen 91 ar ffurf graffig newydd yn hytrach na ffigyrau yn unig. Mae hyn yn rhoi gwell syniad o ba waith sydd wedi'i gwblhau a'i ychwanegu a swm y gwaith sy'n dod i mewn i'r swyddfa yn ogystal â lefelau hanesyddol ac uchafbwyntiau o ran lefelau achos. Mae hefyd yn dangos lefel gweithgaredd y 3 Chyngor ar wahân.

Mae'r tuedd yn dangos cynnydd yn nifer y tasgau bob mis. Mae rhywfaint o hyn yn ymwneud â swm y gwaith a achoswyd wrth greu cyrff newydd a dderbynnir ar drosglwyddiadau staff, er enghraifft pan oedd 400 aelod o staff yn trosglwyddo i gyrff newydd a dderbyniwyd (NEWydd ac Aura).

Nododd Mrs Burnham hefyd fod dros 700 o aelodau anhysbys wedi'u hysbysu oherwydd gweithrediad iConnect a fyddai'n arwain at fwy o waith yn y cyfnod adolygu interim prysur ac y byddai hyn yn cael effaith ar dasgau eraill. Fodd bynnag, byddai disgwyl i'r cyfnod hwn dawelu ac mae trosglwyddo i iConnect yn gam cadarnhaol iawn i'r Gronfa o ran ansawdd data a chwrdd â therfynau amser statudol.

Cyfeiriodd Mr Hibbert at dudalen 91 a gofynnnodd a oedd problem o ran graddfa ac a oedd angen edrych ar y Gronfa gan ei bod yn swm grynodol o

wybodaeth. Cadarnhaodd Mrs Burnham y byddai fformat y graff yn cael ei adolygu a bod yr ystadegau sylfaenol i'w cael ar ffurf tabl.

Dywedodd Mrs Burnham, yn atodiad 2 o dudalen 94 ymlaen, a oedd yn dangos y perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol bod hyn hefyd wedi'i wneud ar ffurf graff er eglurder i ddangos y tri maes gwahanol o ofyniad cyfreithiol, amseroedd gweithdroi mewnol a'r profiad cyffredinol, hynny yw'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Mae TPR â diddordeb yn y gofynion cyfreithiol ond mae'n bwysig edrych ar hyn o safbwyntiau gwahanol. Mae'n cynnwys 7 maes proses allweddol.

Gofynnodd y Cadeirydd i Mrs Burnham egluro'r graffiau newydd yn atodiad 2.

Mewn perthynas â thudalen 94, eglurodd Mrs Burnham bod y linell drwchus yn dangos % nifer yr achosion a oedd wedi'u cwblhau (echel dde) a bod y siart bar yn dangos nifer yr achosion a oedd wedi'u cwblhau (echel chwaith). Nodwyd nad oedd rhai o'r rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu bodloni ac eglurwyd bod y mentrau amrywiol (iConnect, cynllun gwella data ac ati.) yn rhan o'r cynllun i gynorthwyo â chwrdd targedau ond nodwyd hefyd efallai nad oedd cydymffurfedd llwyr ym mhob maes yn bosibl gan ei fod yn dibynnu ar drydydd partïon yn cyflwyno'r data yn amserol e.e.cyflogwyr.

Dywedodd Mr Hibbert bod y cyflwyniad graff yn dangos y rhai nad oedd y Gronfa wedi'u cyflawni yn amlwg. Fodd bynnag, roedd y rhai lle roedd y Gronfa wedi rhagori'r gofyniad cyfreithiol yn anodd i'w gweld e.e. pam fod y linell drwchus ar y graff yn edrych yn llawer uwch na'r bariau ar dudalen 97.

Mae hyn yn ymwneud ag echel wahanol. Dywedodd Mrs Burnham, er i'r llinellau fod uwchben y bariau, mae'n dangos y cyflawnwyd 65% yn gyffredinol yn y mis cyntaf. Dywedodd y bydd nodiadau eglurhaol i egluro'r graffiau i'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Ar ôl trafodaeth bellach, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd cael nodiadau eglurhaol ar gyfer y graffiau yn yr atodiad hwn. Cadarnhaodd Mrs Burnham y byddai'n trefnu hyn.

Roedd tudalen 101 yn amlygu'r ystadegau o ran defnydd y system Hunanwasanaeth Aelodau. Dengys ar y siart lliw nifer yr aelodau cofrestredig wedi'u rhannu am bob uned, sy'n dangos 17.03% o aelodau posibl ond mae'r ffigwr hwn bellach wedi cynyddu i 18%. Pwysleisiwyd bod swm yr aelodau cofrestredig yn fawr gan fod cynlluniau eraill oddeutu 10-15%. Nodwyd ei bod hi'n ddyletswydd ar bawb i barhau i annog defnydd y system Hunanwasanaeth Aelodau trwy gyflogwyr a chyhoeddiadau'r Gronfa.

Ar ochr dde'r dudalen, amlinellwyd nifer yr unigolion sydd wedi cael mynediad i'r wefan, gyda 10,697 o ragolygon buddion yn cael eu cyfrifo. Mae'r system Hunanwasanaeth Aelodau wedi rhoi cyfle i unigolion gysylltu â'r wefan ac edrych are u buddion ar ddyddiadau gwahanol gan ddefnyddio cyflogau gwahanol. Dywedodd Mrs Burnham hefyd, bod 31,275 o aelodau posibl a dim ond 264 ddewisodd i dderbyn copïau papur o'r dogfennau. Mae hyn yn gadarnhaol iawn o ran defnydd.

Dywedodd y Cynghorydd Llywelyn Jones, fel aelod o'r Gronfa Bensiynau a Chynghorydd nid oedd wedi gallu cofrestru ar y system Hunanwasanaeth Aelodau. Dywedodd Mrs Burnham fod hwn yn gynllun gwahanol ac ar hyn o bryd nid yw'r rhagamcaniadau buddion ac ati yn gweithio ar gyfer Cynghorwyr. Ymatebodd Mrs Burnham gan ddweud ei fod yn gynllun gwahanol ac ar hyn o bryd nid yw'r rhagamcaniadau buddion ac ati yn gweithio ar gyfer Cynghorwyr Eglurodd ei bod hi'n annhebygol y byddai'r meddalwedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cynghorwyr gan ei fod yn effeithio ar cyn lleied o Aelodau.

**PENDERFYNWYD**:

1. Bod y Pwyllgor ystyried y diweddariad a rhoi sylwadau ar fformat y graffiau.

## 113. DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd adroddiad ysgrifenedig ar gyfer yr eitem hon ar y rhaglen gan fod y meysydd wedi'u cynnwys yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror ond fe drosglwyddodd y cyfarfod i Mr Middleman, Mr Harkin a Mrs Fielder er mwyn cael diweddariad ar lafar o Fuddsoddiadau a Chyllid.

Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys;

- Mae Buddsoddi Cyfrifol yn broblem sylweddol ar draws cronfeydd yn ogystal â sicrhau cysondeb ceisiadau gan fod safbwyntiau yn wahanol.
- Mae gweithredu cyfuno ar gamau gwahanol i bob cronfa ond mae'r strwythurau wedi'u sefydlu. Mae rhai cronfeydd yn trosglwyddo asedau yn gyflymach nag eraill yn dibynnu ar eu strategaethau ased sylfaenol.
- Rheoli Risg – Mae'r Llwybr Hedfan yn gweithredu'n dda ac mae Cronfeydd eraill yn symud i'r un cyfeiriad o ran LDI, Gwarchod Ecwiti a dadrisgio yn enwedig o ystyried y gwelliant o ran lefelau ariannu. Roedd y swyddogion a Mercer/JLT wedi cwrdd y bore hwnnw i drafod gweithredu strategaeth gwarchod ecwiti newydd ar gyfer y Gronfa a bydd hyn yn cael ei adrodd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin.
- Lleihaodd gwerth asedau ym mis Ionawr i fis Chwefror o oddeutu £14 miliwn; dywedodd Mrs Fielder bod y Gronfa yn dal i fyny o £1.8 biliwn o ran cyfanswm yr asedau.
- Ychwanegodd Mr Middleman bod lefelau'r cyllid oddeutu 90% sydd o flaen y targed.

## 114. PLSA CONFERENCE SESSION VIDEO ON PENSION RISK

Cyflwynodd y Cadeirydd fideo sesiwn hyfforddi olaf y PLSA am Risg Pensiwn. Gellir gweld y fideo yma: https://www.youtube.com/watch?v=Xwx3MfQzeuY. Roedd y fideo yn cynnwys panel o uwch ffigyrau buddsoddi yn trafod risgiau macro a thematig i bennu pa un sydd fwyaf bygythiol. Mae esiamplau yn cynnwys risgiau o ddatblygiadau daearwleidyddol, risgiau newid hinsawdd ac asedau amddifad.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a dywedodd y byddai’r cyfarfod Pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal ar 13 Mehefin 2018 am 10am.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 5.00 pm)

**..................................................**

**Cadeirydd**